OPSIYNAU TAI GWYNEDD

# GWYBODAETH I YMGEISWYR

YMGEISIO AM EIDDO CYMDEITHASOL YNG NGWYNEDD







PARTNERIAETH COFRESTR TAI GYFFREDIN GWYNEDD

North Wales Housing / Tai Gogledd Cymru

Grŵp Cynefin

Adra

Cyngor Gwynedd Council

Mae eiddo cymdeithasol yng Ngwynedd yn cael eu gosod i ymgeiswyr sydd ar y Gofrestr Tai Gyffredin. Mae'r Gofrestr yn cael ei reoli gan Opsiynau Tai Gwynedd. Os oes gennych ymholiad, cysylltwch â ni:

**Opsiynau Tai Gwynedd • 01286 685100 • opsiynautai@gwynedd.llyw.cymru**

Mae'r Polisi Gosod Tai Gyffredin llawn ar gael ar ein gwefan: **www.gwynedd.llyw.cymru/taicymdeithasol**

## PWY ALL YMGEISIO AM EIDDO CYMDEITHASOL?

Yn gyffredinol bydd y canlynol yn gallu ymgeisio am eiddo cymdeithasol:

- Preswylwyr y DU sydd dros 16 oed
- Dinasyddion Prydeinig
- Dinasyddion Ardal Economaidd Ewrop
- Rhai pobl sydd yn ddinasyddion y Gymanwlad, ceiswyr lloches a phobl o dramor sydd gyda hawliau penodol i aros yn y DU

Fodd bynnag, efallai y bydd rheswm dilys pam na all rhai pobl fod yn gymwys ar gyfer eiddo cymdeithasol. Gall rhesymau gynnwys:

- Pobl o dramor (yn amodol ar yr uchod)
- Pobl sydd yn destun rheolau mewnfudo
- Pobl, neu aelodau teulu pobl, sydd i'w trin fel bod yn anghymwys am eiddo cymdeithasol oherwydd eu hymddygiad annerbyniol yn y gorffennol

## GWNEUD CAIS AM EIDDO CYMDEITHASOL

Beth sydd angen i chi ei wneud:

1. **Cwblhau ac arwyddo'r ffurflen gais* – 1 ffurflen gais sydd yn bodoli ar gyfer pob cymdeithas tai**
2. **Darparu copi o'r wybodaeth angenrheidiol, e.e. cadarnhad o'ch cyfeiriad, hunaniaeth ayyb**
3. **Darparu gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'r cais, e.e. llythyr meddygol, statws digartrefedd**

* Byddwch yn gallu cofrestru cais ar-lein yn fuan.

Beth fydd Opsiynau Tai Gwynedd yn ei wneud:

1. **Gwirio os ydych yn gymwys i ymgeisio**
2. **Prosesu eich cais o fewn 10 diwrnod gwaith (os ydych wedi cynnwys yr holl wybodaeth)**
3. **Os nad ydych wedi darparu gwybodaeth ddigonol, ni fydd eich cais yn cael ei gofrestru**
4. **Cysylltu â chi i drafod eich cais ac i gadarnhau ym mha fand fydd eich cais**

## BLAENORIAETHU CEISIADAU – Y SUSTEM BANDIO

Bydd ceisiadau yn cael eu rhoi mewn un o 4 band yn ddibynnol ar eu hanghenion tai a'u cysylltiad gyda Gwynedd neu beidio.

| Band | |
|---|---|
| **Band 1** | **1a – Angen tai ar frys gyda chysylltiad Gwynedd**<br>**1b – Angen tai ar frys heb gysylltiad Gwynedd** |
| **Band 2** | **Angen tai gyda chysylltiad Gwynedd** |
| **Band 3** | **Ceisiadau lle mae'r flaenoriaeth wedi ei leihau**<br>**Angen tai heb gysylltiad Gwynedd** |
| **Band 4** | **Dim angen tai gyda chysylltiad Gwynedd** |

Ymhob pob band bydd ceisiadau yn ymddangos yn y drefn yma:

1. Ceisiadau gyda chysylltiad cymuned efo'r ardal lle mae'r eiddo'n cael ei osod, yn ôl dyddiad derbyn y cais.
2. Ceisiadau heb gysylltiad cymuned efo'r ardal lle mae'r eiddo'n cael ei osod, yn ôl dyddiad derbyn y cais.

## ANGHENION TAI

Gwelwch isod amgylchiadau fyddai yn cael eu hystyried yn **angen tai brys**, ac **angen tai**.

| Angen Tai Brys | Angen Tai |
|---|---|
| • Yn ddigartref oherwydd camdriniaeth neu gamdriniaeth debygol ag angen ail-gartrefu ar frys<br>• Angen meddygol, lles neu anabledd brys<br>• Gadael y Lluoedd Arfog<br>• Wedi byw mewn llety â chymorth darparwr achredедig ac mae modd i'r ymgeisydd gynnal tenantiaeth annibynnol (barod i symud ymlaen)<br>• Person ifanc yn gadael gofal yr Awdurdod Lleol<br>• Achosion brys lle mae'r teulu angen mynediad i lety cymdeithasol i atal plentyn rhag cael ei gymryd i ofal / parhau mewn gofal<br>• Tenantiaid cymdeithasol presennol yng Ngwynedd sydd naill ai yn tan-feddiannu neu sy'n meddiannu eiddo sydd wedi'i addasu nad ydynt ei angen<br>• Colli cartref oherwydd trychineb<br>• Rhai ymgeiswyr gyda dyletswydd digartref<br>• Achos eithriadol arall o angen brys | • Ymgeiswyr sy'n ddigartref o fewn ystyr Deddf Tai (Cymru) 2014<br>• Ymgeiswyr lle mae gan awdurdod tai lleol ddyletswydd iddynt o dan adrannau 66, 73, 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014<br>• Ymgeiswyr sy'n byw mewn tai heb gyfleusterau glanweithiol neu dai gorlawn neu fel arall yn byw mewn tai gydag amodau anfoddhaol<br>• Ymgeiswyr sydd angen symud ar sail feddygol neu les (cynnwys seiliau sy'n berthnasol i anabledd)<br>• Fforddiadwyedd tai sector preifat<br>• Tenantiaid tai cymdeithasol presennol yng Ngwynedd sy'n tan-feddiannu un neu ddwy ystafell wely ac yn dymuno trosglwyddo i eiddo llai<br>• Pobl sydd angen symud i ardal benodol o'r sir lle byddai methiant i wneud hynny yn achosi caledi (iddynt hwy neu eraill)<br>• Gweithwyr Amaethyddol wedi'u dadleoli<br>• Achos eithriadol arall o angen |

## CYSYLLTIAD GWYNEDD A CHYSYLLTIAD CYMUNED



Dyma beth sy'n cael ei ystyried fel **Cysylltiad Gwynedd**:

- Byw yng Ngwynedd am **5 mlynedd**
- Cyswllt teuluol yng Ngwynedd ers dros **10 mlynedd**
- Darparu cymorth neu dderbyn cymorth gan berson neu ddarpariaeth yng Ngwynedd
- Gweithio yng Ngwynedd am y **5 mlynedd** ddiwethaf
- Wedi cael cynnig swydd yng Ngwynedd ond gydag anabledd ac nid oes modd derbyn y swydd oherwydd anhawster canfod llety hygyrch
- Angen symud i Wynedd fel y gall aelod o'r teulu gydag anabledd fynychu ysgol neu gael cymorth arbenigol ond nid oes modd gwneud hynny oherwydd anhawster canfod llety hygyrch
- Yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yng Ngwynedd
- Yn gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog, nad yw mewn cyflogaeth neu'n byw yng Ngwynedd ar hyn o bryd a wasanaethodd yng Ngwynedd tra 'roedd yn y Lluoedd

Diffiniad **Cyslltiad Cymuned**:

- Byw yn y gymuned ble lleolir yr eiddo i'w osod am gyfnod o **5 mlynedd**

**Ni fydd ceisiadau heb gysylltiad Gwynedd nag angen tai yn cael eu cofrestru**.

## STOC TAI GWYNEDD A DEWIS LLETY

Ceir gwahanol fathau o eiddo o amrywiol faint o fewn y sir. Ewch i'r wefan am fanylion o ba fath o eiddo sydd wedi eu lleoli yn yr ardaloedd yr hoffech fyw ynddynt. www.gwynedd.llyw.cymru/taicymdeithasol.

Gallwch ddewis y math o eiddo yr ydych ei angen, nifer ystafelloedd gwely a'r lleoliad. Gwnewch yn siwr eich bod yn dewis lleoliad y byddwch yn barod i fyw ynddo. Pe byddwch yn gwrthod cynnig eiddo o'r math ac mewn lleoliad o'ch dewis yna gall eich cais gael ei symud i fand is.

Dyma gewch eich ystyried amdano. Nodwch mai **canllaw yn unig ydi hwn** ac efallai na fydd eich dewis delfrydol o faint eiddo yn cael ei gynnig i chi ac y cewch gynnig eiddo yr ydym ni o'r farn sydd yn rhesymol ac addas ar eich cyfer.

| Aelwyd yr ymgeisydd | Maint yr eiddo | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 1 ystafell wely | 2 ystafell wely | 3 ystafell wely | 4 ystafell wely | 5+ ystafell wely |
| Person sengl | ⌂ | ⌂ | | | |
| Cwpl | ⌂ | ⌂ | | | |
| Teulu gyda 1 plentyn | | ⌂ | ⌂ | | |
| Teulu gyda 2 o blant | | ⌂ | ⌂ | | |
| Teulu gyda 3 o blant | | | ⌂ | ⌂ | |
| Teulu gyda 4 o blant | | | ⌂ | ⌂ | ⌂ |
| Teulu gyda 5 neu fwy o blant | | | ⌂ | ⌂ | ⌂ |

## GOSTWNG BLAENORIAETH

Mae'n bosibl i gais dderbyn llai o flaenoriaeth oherwydd rhesymau penodol. Dyma rai enghreifftiau:

- ✓ Ymddygiad sy'n effeithio addasrwydd i fod yn denant (cynnwys ymddygiad gwrth-gymdeithasol, torri amodau tenantiaeth, dyledion rhent, darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ar y cais)
- ✓ Adnoddau ariannol (pobl sydd gyda adnoddau ariannol i gwrdd a'i anghenion tai)
- ✓ Gwrthod cynnig rhesymol llety

Bydd cais gyda blaenoriaeth wedi ei ostwng yn ymddangos yn band 3. Gellir symud yn ôl i'r band gwreiddiol pan fydd yr ymddygiad wedi gwella neu'r ddyled wedi ei ad-dalu (neu bod trefniant boddhaol i ad-dalu dyled wedi ei sefydlu). **Dyddiad dychwelyd i'r band ac nid dyddiad derbyn y cais fydd yn cael ei ddefnyddio**.

## CWBLHAU'R CAIS

Ni fydd eich cais yn cael ei gofrestru oni bai ei fod wedi ei gwblhau'n gywir. Dyma rhai awgrymiadau:

- ✓ Atebwch **bob cwestiwn** yn y ffurflen gais. Os nad yw cwestiwn yn berthnasol i'ch amgylchiadau nodwch "dim yn berthnasol (D/B)" fel eich ateb.
- ✓ Darllenwch y canllawiau a ddarparwyd yn y ffurflen gais.
- ✓ Os nad ydych yn siŵr pa ddogfennau sydd angen i chi atodi fel rhan o'r cais yna cysylltwch â ni: 01286 685100 neu opsiynautai@gwynedd.llyw.cymru. Anfonwch gopïau yn unig. Peidiwch â gyrru dogfennau gwreiddiol gan na allwn warantu y byddent yn cael eu dychwelyd yn ddiogel i chi.
- ✓ Gwnewch yn siwr bod pob ymgeisydd yn llofnodi a dyddio'r ffurflen gais.
- ✓ Cofiwch, **pan fydd eich cais wedi ei gofrestru ni fydd angen i chi gysylltu â ni oni bai bod yna newid sylweddol yn eich amgylchiadau (gan gynnwys symud tŷ) neu fanylion cyswllt**.
- ✓ Bydd eich cais yn cael ei ystyried ar gyfer eiddo sydd yn cwrdd â'r dewisiadau ar eich cais (math eiddo, maint a lleoliad) yn ddibynnol ar unrhyw amodau a osodir gan y gymdeithas dai, er enghraifft maint teulu neu gyfleusterau arbennig yn yr eiddo.
- ✓ Os byddwch yn cael cynnig tenantiaeth bydd y gymdeithas dai yn cysylltu gyda chi i drafod beth fydd yn digwydd nesaf. Ni fydd angen i chi gysylltu gyda Opsiynau Tai Gwynedd.
- ✓ Cofiwch gofrestru eich cais mewn da bryd. Mae'n rhy hwyr pan welwch eiddo'n wag.

## MANYLION CYSWLLT

Os oes gennych unrhyw ymholiad am eich cais am eiddo cymdeithasol yna cysylltwch gyda Opsiynau Tai Gwynedd. Dyma hefyd fanylion cyswllt ein partneriaid:

**01286 685100**
**opsiynautai@gwynedd.llyw.cymru**
**www.gwynedd.llyw.cymru/taicymdeithasol**

**0300 123 8084**
**www.adra.co.uk**

Grŵp Cynefin
**0300 111 2122**
**www.grwpcynefin.org**

**01492 572727**
**www.nwha.org.uk**